# Cynllun Gweithredu Llansteffan

## Drafft Ymgynghori

Medi 2022

Owen Davies Consulting
Element Urbanism



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Tabl cynnwys


1 Diben ..... 1

2 Y pryderon a'r cyfleoedd allweddol ..... 3

3 Amcanion ..... 10

4 Cynigion drafft ..... 11

5 Y Camau Nesaf ..... 16



Mae'r prosiect hwn wedi derbyn cyllid gan y Grŵp Cefn Gwlad, Grŵp Gweithredu Lleol Sir Gâr, sef y corff cyfrifol am raglen LEADER yn Sir Gâr. Caiff rhaglen LEADER 2014 – 2020 ei chyllid trwy Gynllun Datblygu Gwledig (RDP) Cymru fel rhan o Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop a Llywodraeth Cymru ar gyfer Datblygu Gwledig.



Cynhyrchwyd gan Owen Davies Consulting Ltd ar ran Cyngor Sir Gâr. Cedwir pob hawl, dim atgynhyrchu heb awdurdod ©

Atgynhyrchwyd yr holl fapiau yn y ddogfen hon o'r Arolwg Ordnans gyda chaniatâd rheolydd Llyfrfa Ei Fawrhydi.

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2020 Arolwg Ordnans 100023377

# 1 Diben

Cafodd y Cynllun hwn ei gomisiynu ar gyfer Llansteffan gyda chyllid gan  Grŵp Cefn Gwlad mewn ymateb i dwf a phoblogrwydd y pentref fel cyrchfan i ymwelwyr. Nodwyd amrywiaeth o heriau, gan gynnwys rheoli pwysau twristiaeth, diogelu llesiant y gymuned a sicrhau bod yr economi ymwelwyr yn parhau i ffynnu.

Nod y Cynllun hwn yw cadarnhau dealltwriaeth glir o flaenoriaethau a chefnogaeth y gymuned i unrhyw newidiadau a gwelliannau cyn gweithredu unrhyw gynigion. Mae angen i'r Cynllun ymdrin â'r canlynol:

- Gallu Llansteffan i reoli ymwelwyr a thwf o fewn terfynau seilwaith y pentref
- Lleoliad a ffyrdd o reoli mannau parcio i ymwelwyr
- Diogelu'r amgylchedd naturiol a Maes Glas y Pentref
- Cynyddu gwariant eilaidd ymwelwyr yng nghanol y pentref er budd busnesau lleol
- Gwella cyfleoedd i brofi'r dreftadaeth leol a'r amgylchedd naturiol



## Cyd-destun

Mae Llansteffan yn adnabyddus fel cyrchfan i ymwelwyr ers y 19eg a dechrau'r 20fed ganrif, yn benodol am ei draeth, y pentref hyfryd, a'r castell. Mae'n ardal o harddwch naturiol sy'n cyferbynnu â chymeriad ôl-ddiwydiannol yr ardal ehangach gyda golygfeydd gwych o'r tirwedd naturiol i'w gweld o Gastell Llansteffan.

Mae ymwelwyr yn dal i heidio i Llansteffan ac mae llawer yn mynd i ddigwyddiadau a gynhelir drwy gydol y flwyddyn. Gyda'r pandemig COVID, mae Llansteffan wedi profi hwb anferthol i'w economi ymwelwyr gyda phobl yn ceisio amgylcheddau arfordirol lleol fel lleoedd i ymarfer a mwynhau'r awyr agored.

Mae poblogaeth Llansteffan o tua 500 o bobl yn chwyddo'n aml ar ddyddiau prysuraf yr haf ac yn cynyddu pwysau ar wasanaethau ac amwynderau lleol. Mae problemau fel sbwriel, tagfeydd traffig, parcio sy'n peri niwsans, a gwersylla dros nos anrheoleiddiedig yn digwydd yn fwyfwy rheolaidd.

Oherwydd yr heriau hyn, mae angen dull newydd a chytbwys o reoli seilwaith y pentref, a fydd yn:

- cefnogi twf twristiaeth a gwella ansawdd profiad i ymwelwyr
- gwarchod ansawdd bywyd a chyfleusterau'r gymuned leol
- ystyried y pwysau ar seilwaith lleol megis twf ail gartrefi a llety gwyliau ar dai fforddiadwy a chyfleusterau lleol.



# 2 Y pryderon a'r cyfleoedd allweddol

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gyda'r gymuned a busnesau ynghylch y problemau allweddol sy'n wynebu Llansteffan yn ystod Mehefin/Gorffennaf 2022. Roedd 381 o ymwelwyr unigol â'r canolbwynt ar-lein a gwnaed sylwadau gan 62 o bobl, gyda 97% yn disgrifio'u hunain fel trigolion ac 16% yn disgrifio'u hunain fel busnes lleol. Yn ogystal â'r ymgynghoriad ar-lein, roedd 18 o ymatebion â ysgrifennwyd â llaw. Cyfanswm nifer y cyfranogwyr oedd 80.

Yn ogystal, mae trafodaethau wedi bod gyda'r Cyngor Cymuned, Cynghorwyr a sefydliadau lleol i adnabod eu blaenoriaethau. Mae hyn wedi cael ei gefnogi gan ymarferiad manwl o ymchwil annibynnol sydd wedi arwain at adnabod y materion allweddol canlynol.

## Maes Glas y Pentref

Llain yw Maes Glas y Pentref sy'n rhedeg o'r traeth yn Llansteffan rhwng y cae pêl-droed yn y gogledd, i'r maes parcio yn y de. Cafodd ei ddynodi felly yn yr 1980au a chaiff ei ddiogelu ar gyfer ei ddiben cyfreithlon o chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Mae'r ardal yn bwysig am ei thirwedd a'i gwerth amwynderol a'r amrywiaeth o ddibenion hanesyddol o'r tir, gan gynnwys lleoedd a ddefnyddir ar gyfer parcio ceir. Mae'r rhan fwyaf o Faes Glas y Pentref yn eiddo i'r Cyngor Sir, gyda pharcio'n effeithio ar un llain o dir a'r fynedfa i'r cae pêl-droed yn eiddo i'r Cyngor Cymuned, a darn bach caeedig ohono mewn perchnogaeth breifat a ddefnyddir gan gaffi symudol Coastal Delights.

Mae llawer o'r problemau rheoli traffig a pharcio a brofir o fewn y pentref ac ar hyd glan y môr wedi eu gwreiddio yn y ffordd y caiff Maes Glas y Pentref ei reoli. Dros y blynyddoedd, mae'r Cyngor Cymuned a'r Cyngor Sir wedi ceisio mynd i'r afael â'r problemau a'u datrys trwy ddefnyddio gorfodi a gwahardd. Fodd bynnag, heb strategaeth glir mae effeithiau cyffredinol gwelliannau ar y pentref a Maes Glas y Pentref wedi parhau i fod yn aneglur. Rhan bwysig o baratoi'r Cynllun hwn yw penderfynu beth mae'r gymuned yn ei deimlo fyddai o fwyaf o fudd iddynt hwy.

Ffigur 1: Maes Glas dynodedig y Pentref (dangosiadol)



Ffigur 2 Safleoedd ac asedau allweddol



## 2 – Traffig Ymwelwyr a Pharcio Ceir

Caiff traffig ymwelwyr ei gyfeirio ar hyn o bryd ar hyd Heol y Dŵr tuag at y ddau brif faes parcio sydd â mynediad at y traeth a'r castell. Mae'r ffordd yn dod yn lôn gul sengl heb fawr o gyfleoedd i draffig basio'i gilydd, ac mae hyn yn creu tagfeydd i ymwelwyr a thrigolion sy'n byw uwchben y foryd. Mae hefyd brinder o leoedd i barcio ceir ar gyfer y nifer o ymwelwyr sy'n cyrraedd ar y dyddiau prysuraf, gan greu problemau gyda pharcio ar lecynnau anaddas o Faes Glas y Pentref, tagfeydd ar hyd Heol y Dŵr a cheir a cherbydau mwy yn gwasgaru i rannau preswyl cyfagos a chanol y pentref.

### Maes Parcio'r Gogledd

**Maes Parcio'r Gogledd** yw'r llain gerllaw cae pêl-droed y pentref ac mae'n mynd yn ôl i'r 1950au o leiaf cyn Maes Glas y Pentref. Mae ganddo'r potensial i gynnwys hyd at 100 o gerbydau. Mae'r problemau allweddol yn cynnwys:

- Perchnogaeth gymysg rhwng y Cyngor Sir a'r Cyngor Cymuned
- Mae wedi ei gyfyngu i'r mathau o ddefnydd tir sy'n mynd yn ôl ymhellach na Maes Glas y Pentref, gan gynnwys y parcio presennol a'r bloc toiledau
- Cyflwr a golwg wael y maes parcio, gydag wyneb cymysg o raean a phridd a dim marciau parcio. Mae cerbydau'n parcio ar hap, gan rwystro mynediad i'r traeth weithiau, a pheri defnydd aneffeithlon o'r lle sydd ar gael.
- Effeithiau negyddol gwersylla dros nos/carafannau modur sy'n tarfu a pheri problemau gyda gwaredu gwastraff, sbwriel ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol
- Bloc toiledau amlwg â golwg wael arno, sy'n eiddo i'r Cyngor Sir ac wedi cau ers dros 20 mlynedd. Mae'r cyfleuster yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol ac nid oes cynlluniau i'w ailddefnyddio fel toiled cyhoeddus. Mae hefyd broblemau cymhleth ynghylch ei berchnogaeth a chyfamodau sy'n cyfyngu ar ei ddefnydd er y gellid o bosibl ei brydlesu ar gyfer gweithgarwch newydd.
- Mae mynediad i'r traeth ar gyfer cerbydau argyfwng a'r gweithgarwch hel cocos tymhorol yn helpu clirio tagfeydd ar y ffordd gul ar hyd y traeth

### Maes Glas y Pentref (gogledd)

Roedd y llecyn gerllaw Maes Parcio'r Gogledd yn lle parcio tymhorol i ymwelwyr ar un adeg ond cafodd ei ddatblygu tua 5 mlynedd yn ôl ar gyfer cynllun rheoli llifogydd a draeniad o dan y ddaear. Cafwyd gwared dros dro ar y parcio i alluogi'r llecyn gwyrdd i adfywio ar ôl y gwaith, ond mae effaith cael gwared ar le parcio wedi cynyddu pwysau parcio ymwelwyr mewn lleoedd eraill yn y pentref. Mae ffotograffau hanesyddol o'r awyr yn awgrymu bod y llecyn cyfan yn rhoi lle i rhwng 50 a 100+ o gerbydau.

## Maes Glas y Pentref (de)

Mae'r llain denau ddyrchafedig o Faes Glas y Pentref yn cynnwys arwynebedd bach o leoedd parcio i drigolion y tai gyferbyn. Oherwydd prinder lleoedd parcio, mae'r ardal yn aml wedi gorlenwi gyda hyd at 35 o gerbydau ar gyfnodau brig.

## Heol y Dŵr a Glan -y-Môr

Nid oes cyfyngiadau parcio ar ffyrdd yn y lleoedd hyn, er bod ymwelwyr yn aml yn parcio ar ddwy ochr y ffordd gan achosi tagfeydd lle mae'r ffordd yn culhau. Mae Heol y Dŵr hefyd wedi ei dynodi fel rhan o Lwybr Arfordir Cymru a llwybr allweddol i gerddwyr tuag at ganol y pentref. Fodd bynnag, mae llwybr uniongyrchol i'r canol, a gaiff ei adnabod fel Carriers Lane, ynghudd i raddau ac yn aneglur i ymwelwyr.

## Maes Parcio'r Maes Glas

Mae'r maes parcio a reolir gan y Cyngor Sir sydd wedi ei leoli i'r de yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio ar hyn o bryd ac mae'n hynod o boblogaidd gydag ymwelwyr oherwydd y mynediad i'r traeth a'r cyfleusterau. Mae'r pryderon allweddol a nodwyd yn cynnwys:

- Ffordd fynediad gul a thagfeydd ar y ffordd sy'n arwain ato
- Mynedfa â ramp i'r traeth yn cael ei rhwystro gan dywod yn chwythu o'r traeth a dim dewisiadau hygyrch eraill
- Mae mannau parcio i'r anabl hefyd yn cael eu gorchuddio'n rheolaidd â thywod
- Gormodedd o arwyddion gwybodaeth i ymwelwyr ac i'r maes parcio ac arwyddion eraill yn ddryslyd i ymwelwyr
- Rheoli cerbydau heb awdurdod sy'n mynd i'r traeth gan achosi difrod
- Cynigion ar gyfer taliadau am barcio ceir a thocynnau tymor



## Canol y Pentref

Mae canol hanesyddol y pentref a'r ardal gadwraeth yn llawn cymeriad a hanes ac yn ganolfan i fusnesau lleol. Mae'r eglwys ganoloesol leol a'r Ffenestr Ddwyreiniol addurniadol yn atyniad pwysig arall.

Fodd bynnag, nid yw canol y pentref yn lle cyfeillgar i gerddwyr ac ymwelwyr, gyda phalmentydd cul ac, mewn rhai lleoedd, dim palmant o gwbl, yn ymyrryd â symudiad diogel a mwynhad o'r lle. Cyfyngedig hefyd yw'r lleoedd i barcio ar y stryd gyda llawer o drigolion yn dibynnu ar leoedd ar ochr y ffordd ac yn aml yn cystadlu ag ymwelwyr am leoedd.

Mae'r Sgwâr sydd wedi'i leoli ar gyffordd y Stryd Fawr a Ffordd yr Eglwys yn gweithredu fel calon naturiol y pentref ac fe'i defnyddir weithiau ar gyfer digwyddiadau cymunedol. Fodd bynnag, mae'n teimlo fel cyffordd rhy fawr sy'n ymyrryd â'i botensial fel canol pentref deniadol sy'n tynnu sylw.

Y prif broblemau eraill yw:

- Nid yw llwybrau cerddwyr ac arwyddion i ymwelwyr o'r prif faes parcio a glan y môr yn mynd ati'n effeithiol i annog ymwelwyr i grwydro canol y pentref.
- Teithiau cerdded lleol a Llwybr Arfordir Cymru yn cyfeirio ymwelwyr oddi wrth ganol y pentref
- Traffig symudol a cherbydau mawr yn mynd trwy strydoedd culion
- Traffic ymwelwyr yn camgymryd ac yn ceisio cael at y castell gan achosi tagfeydd












## Y Morfa

Mae'r Morfa yn gyfleuster cymunedol allweddol ac yn llecyn agored sy'n eiddo i Gyngor Sir Gâr a'i osod i Glwb Chwaraeon Llansteffan. Yn wahanol i Faes Glas y Pentref ger y traeth a ddefnyddir gan ymwelwyr a'r gymuned fel ei gilydd, caiff y Morfa ei weld fel lle ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau'r gymuned.

Fodd bynnag, mae'r Morfa yn profi draeniad tymhorol gwael, gan ei wneud yn aml yn amhosibl chwarae pêl-droed yn ystod misoedd y gaeaf. Mae'r Clwb Pêl-droed yn defnyddio cae pêl-droed y traeth ar hyn o bryd gan fod ganddo well draeniad drwy gydol y flwyddyn. Gwnaed ymchwil i gynllun gwella draeniad ar gyfer y Morfa, er na chanfuwyd y cyllid i weithredu'r gwaith.

## Rheoli ymwelwyr

Codwyd amrywiaeth o ystyriaethau ar gyfer rheoli ymwelwyr gan y gymuned a rhanddeiliaid gan gynnwys

- Gwell rheolaeth o gŵn yn maeddu a diffyg parch/gorfodi rheolau i gwn ar y traeth
- Cyflwyno tâl am barcio i ymwelwyr a defnyddio'r cyllid a godir i reoli a chynnal a chadw'r safleoedd parcio
- Gwella rheolaeth o sbwriel ymwelwyr
- Rhwystro gwersylla anghyfreithlon /carafannau modur dros nos ym mhob maes parcio
- Annog traffig ymwelwyr i beidio â cheisio cael at y castell ar hyd Heol yr Eglwys
- Gwell gwybodaeth i ymwelwyr rhwng Maes Parcio'r Lawnt i'r castell a chanol y pentref
- Gwell llwybrau tuag at y castell i ddiwallu anghenion y rheini sydd ag anghenion hygyrchedd.

## Tai Fforddiadwy

Mae diffyg tai fforddiadwy i bobl a theuluoedd lleol oherwydd twf mewn ail gartrefi, llety gwyliau, a chynnydd mewn prisiau tai wedi cael ei godi fel problem fawr. Ychydig iawn o dai fforddiadwy sydd ar gael i'w rhentu, ac mae pobl ifanc, felly teuluoedd â phlant, yn symud allan o'r pentref. Mae hyn wedi codi pryderon am effeithiau mwy hirdymor ar gynnal y gymuned a seilwaith cymunedol.

# 3 Amcanion

I grynhoi, prif amcanion y Cynllun yw:

1. Ymdrin â phroblemau rheoli traffig a diffyg lleoedd parcio ar hyd glan y môr a chanol y pentref
2. Gwarchod a gwella llecynnau agored a mannau hamdden ar gyfer ac er budd y gymuned
3. Gwella gwybodaeth i dwristiaeth a chryfhau'r cysylltiadau rhwng glan y môr, y castell a chanol y pentref
4. Gwella cymeriad a golwg canol y pentref fel cyrchfan i ymwelwyr
5. Ymdrin â'r angen am fynediad mwy hygyrch i'r traeth a lle parcio i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn
6. Adnabod cyfleoedd i gynhyrchu incwm o barcio i wella a chynnal cyfleusterau parcio
7. Cefnogi cyfleoedd am dai fforddiadwy a chynnal cyfleusterau lleol



# 4 Cynigion drafft

Mae'r Cynllun ymgynghori drafft hwn yn gyfle i'r gymuned a rhanddeiliaid lleol roi sylwadau ar gyfres o gynigion a gwelliannau. Mae'n gam pwysig wrth benderfynu pa welliannau sydd er budd y gymuned.

Bydd yr adborth a dderbynnir yn helpu sefydlu'r egwyddorion ar gyfer llawer o'r syniadau, gyda rhai cyfleoedd yn gofyn am gynlluniau pellach, ymgynghori â'r cyhoedd, ac mewn rhai achosion, cymeradwyaeth statudol cyn gweithredu. Bydd hefyd angen adnabod cronfeydd newydd, ffrydiau incwm a chyfrifoldebau dros reoli a chynnal y gwelliannau a gynigir.

## Cynnig ar gyfer Maes Parcio'r Gogledd a Maes Glas y Pentref

**Gwelliannau tirwedd** i wella ansawdd a golwg y maes parcio i ymwelwyr a sicrhau'r uchafswm o leoedd i barcio. Gellid gwneud hyn trwy'r camau canlynol:

- Defnyddio deunyddiau wynebu sy'n cynnal y mannau caled a meddal presennol heb eu hymestyn.
- Cyflwyno nodweddion cyffredinol tirwedd naturiol megis tywyrch, terfynau cerrig a bolardau pren i annog ymwelwyr i barcio'n fwy effeithlon o fewn y gofod sydd ar gael ac atal cerbydau rhag rhwystro mynediad i'r traeth.

**Mesurau gorfodi** i gymell carafannau modur i beidio ag aros dros nos. Mae'r dewisiadau'n cynnwys cyfuniad:

- Rhwystrau y gellid eu cloi dros nos, i'w rheoli gan wirfoddolwyr lleol neu Warden Arfordirol newydd.
- Hyrwyddo ac annog dewisiadau eraill gerllaw gan gynnwys safleoedd gwersylla carafannau modur yn y pentref, fel The Cottage Fields

**Cyflwyno taliadau am barcio i ymwelwyr** – fel mewn llawer o gyrchfannau arfordirol, gellid codi tâl ar ymwelwyr i barcio gerllaw'r traeth a'r cyfleusterau trwy ddefnyddio system talu ac arddangos a

chilfannau parcio heb eu marcio. Gellid defnyddio'r refeniw a godir i gyllido'r gwelliannau gwreiddiol, rheoli a chynnal y lleoedd parcio.

**Ailddefnyddio'r Bloc Toiledau** – yn amodol ar gyfyngiadau, mae potensial i osod y bloc toiledau ar gyfer gweithgarwch newydd neu ddefnydd busnes er mwyn sicrhau defnydd adeiladol ohono a gwella'i olwg. Un dewis allai gosod yr adeilad i fusnes sy'n bod eisoes ar lan y môr a fyddai â diddordeb mewn gwella eu cynnig presennol. Yn ogystal, gallai'r dewis hwn fod yn fodd o archwilio'r posibilrwydd o ailagor y toiled o dan reolaeth busnes lleol.

**Parcio gorlif** – gellid lleoli maes parcio gorlif i ymwelwyr ar ran o Faes Glas y Pentref (gogledd). Byddai'n ailsefydlu rhan sy'n dyddio'n ôl ynghynt na Maes Glas y Pentref ac yn helpu lliniaru pwysau am leoedd parcio mewn lleoedd eraill ar hyd y traeth a chanol y pentref. Byddai'r opsiwn o greu maes gorlif bach gyda mynediad iddo trwy Faes Parcio'r Gogledd yn ddefnyddiol ar gyfer ymwelwyr ar y dyddiau prysuraf gan gynnwys penwythnosau a gwyliau banc. Byddai'r tir gorlif yn cynnwys:

- Gatiau y gellir eu cloi yn cyfyngu parcio hyd at 6pm a rhwystro arosiadau dros nos (y gellid eu rheoli gan y swyddog parcio).
- Rhwystr cyfyngu uchder i 2m er mwyn caniatáu ceir yn unig.
- Torlan isel o bridd neu gerrig ar yr ymyl er mwyn rhwystro ymwelwyr rhag parcio'n ehangach ar weddill Maes Glas y Pentref.
- Arwyddion ffyrdd newydd (rhai digidol o bosibl) yn cyfeirio ymwelwyr tuag at y maes gorlif pan ddaw maes parcio'r Maes Glas yn llawn.
- Taliadau parcio.
- Byddai defnydd tymhorol yn lleihau'r swm o ddifrod ac yn caniatáu i'r rhannau glaswelltog adfywio yn ystod y flwyddyn.

**Ffigur 3 Enghreifftiau o nodweddion tirwedd naturiol i wella golwg y maes parcio a rheoli cerbydau**



## Cynigion ar gyfer Maes Glas y Pentref (y de)

**Cymell ymwelwyr i beidio â pharcio** – byddai cymell ymwelwyr i beidio â pharcio ar y safle hwn yn rhwystro difrod pellach ac yn gwella amwynder Maes Glas y Pentref a lleihau effaith ymwelwyr ar gartrefi cyfagos. Byddai'r cynnig am faes parcio gorlif bach gerllaw'r Maes Parcio presennol y Gogledd yn cynyddu capasiti parcio yn yr ardal a thynnu sylw ymwelwyr gydag arwyddion clir a dewisiadau eraill haws eu cyrraedd.

Gallai'r gwelliannau gynnwys trin tirwedd i adfer ansawdd Maes Glas y Pentref.

## Cynigion ar gyfer Maes Parcio Maes Glas y Pentref

Mae'r cynigion yn cynnwys:

- Ail-leoli'r lleoedd parcio anabl oddi wrth y rhannau sy'n agored i dywod yn cael ei chwythu o'r traeth
- Creu pwynt mynediad arall ar ramp i'r traeth a gaiff ei diogelu'n well rhag y gwynt a'r tywod. Un dewis yw gerllaw mynedfa'r maes parcio a'r blwch ffôn.
- Cyflwyno tâl am barcio i ymwelwyr a weithredir gan y Cyngor Sir (gyda thocynnau tymor)
- Symleiddio'r swm o wybodaeth ac arwyddion i ymwelwyr fel y daw'n gliriach ac yn fwy cyson. Gosod arwyddion ger mynedfa'r traeth, toiledau a siopau, a gerllaw'r llwybr tuag at y pentref.

## Cynigion ar gyfer Heol y Dŵr

Lliniaru tagfeydd a chryfhau llwybrau teithio llesol cerdded/beicio ar hyd llwybr yr arfordir a thuag at ganol y pentref. Mae cyfleoedd i gymryd y mesurau canlynol:

- Gwahardd parcio gyda llinellau melyn sengl (gyda chyfyngiadau ar waith ar adegau penodol o'r dydd/adegau o'r flwyddyn) ar Heol y Dŵr gerllaw'r Morfa a Maes Parcio'r Gogledd yn amodol ar Orchymyn Rheoleiddio Traffig
- Arwyddion ffyrdd newydd: gyda rhybudd o lôn gul; ildio i draffig sy'n cyfarfod, a rhoi blaenoriaeth i gerbydau o'r de
- Arwyddion newydd i ymwelwyr yn annog cerddwyr i'r pentref trwy Carriers Lane
- Osgoi creu pwysau parcio mewn lleoedd eraill yn y pentref, mae angen i weithredu'r opsiwn hwn gael ei ystyried ar y cyd â chreu lleoedd parcio ychwanegol amgen, ee ym Maes Parcio'r Gogledd.

## Cynigion ar gyfer Canol y Pentref a'r Sgwâr

Mae angen tawelu symudiad traffig a gwneud canol y pentref yn lle mwy cyfeillgar i gerddwyr. Gallai hyn hefyd wella ansawdd tir y cyhoedd a chreu cyrchfan gryfach, fwy apelgar i ymwelwyr, gan gynyddu eu treuliant amser a'u gwariant gyda busnesau lleol a chefnogi rhedeg digwyddiadau a gwyliau lleol.

Mae'r cynigion yn cynnwys

- Gwelliannau i dir y cyhoedd a'r strydlun er mwyn gwneud y Sgwâr yn lle mwy dymunol i gerddwyr
- Arwyddion newydd yn annog traffig ymwelwyr i osgoi mynd ar hyn Heol yr Eglwys
- Lleoedd i adael beiciau a seilwaith megis pympiau stryd i ymwelwyr

## Cynigion ar gyfer y Morfa

Y nod yw datblygu a gwella'r cyfleusterau chwaraeon a goresgyn y draeniad gwael a gwella defnydd y safle drwy gydol y flwyddyn. Y cyfle allweddol yw adnabod ffynonellau posibl o gymorth grant ar gyfer y Clwb Chwaraeon / Clwb Pêl-droed i wella draeniad a gwella cyfleusterau gerllaw adeilad y clwb a'r pafiliwn.

## Cynigion ar gyfer rheoli'r gyrchfan

Er mwyn sicrhau bod Llansteffan yn cynnig cyrchfan lân, ddiogel a gaiff ei rheoli a'i hyrwyddo'n dda i ymwelwyr, mae opsiwn i archwilio'r cyfle i greu swydd Warden Arfordirol tymhorol i oruchwylio gorfodi is-ddeddfau'n ymwneud â chŵn ar y traeth, gwersylla anrheoleiddiedig dros nos, parcio a rheoli sbwriel. Gallai rolau eraill gynnwys cefnogi trigolion, ymwelwyr, atyniadau a busnesau gyda gwybodaeth leol, canllawiau a hyrwyddo'r hyn sydd ar gael a goruchwylio monitro seilwaith gwyrdd a rheoli bioamrywiaeth. Byddai angen astudiaeth ddichonoldeb er mwyn adnabod ffynonellau posibl o refeniw ac opsiynau rheoli.

## Cyfleoedd am Dai Fforddiadwy

Gan nad oes ond ychydig iawn o dai fforddiadwy ar gael i'w prynu na'u rhentu ar ôl yn Llansteffan, mae'r Cynllun yn cefnogi datblygu safle o dir ar gyfer tai ym Maesgriffith sy'n eiddo i'r Cyngor Sir ac sydd wedi cael ei ddynodi yn y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo, gan gynnwys nifer bach o dai fforddiadwy.

Yn ogystal, mae polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn caniatáu cynnwys darnau o dir o amgylch ymyl Llansteffan i ddarparu cartrefi newydd fforddiadwy ac mae'r Cynllun yn annog tirfeddianwyr i archwilio'r opsiynau hyn.

Ffigur 4 Crynodeb o'r Cynigion



# 5 Y Camau Nesaf

Yn dilyn yr ymgyngoriadau ar y cynigion drafft, bydd yr holl sylwadau a dderbynnir yn cael eu hadolygu a'u trafod gyda'r Cyngor Sir, Cynghorwyr a'r Cyngor Cymuned cyn cytuno ar Gynllun terfynol. Bydd y Cynllun yn cynnwys cynllun gweithredu yn disgrifio sut y gellid symud ymlaen i weithredu cynigion sydd â chefnogaeth y gymuned ac o fewn pa raddfeydd amser.

Owen Davies Consulting Limited, 43A&B Frogmore Street Y Fenni NP7 5AN

owendaviesconsulting.co.uk

© Cedwir pob hawl